



**Universities
Wales**
**Prifysgolion
Cymru**

**Cyflawni i Gymru:
Blaenoriaethau addysg uwch
i Lywodraeth Cymru nesaf**

Rhagfyr 2015
www.uniswales.ac.uk

Amdanom Ni

Mae Prifysgolion Cymru yn cynrychioli buddiannau prifysgolion yng Nghymru, ac mae'n un o Gyngorau Cenedlaethol Universities UK. Mae aelodau AUC yn cynnwys Is-gangellorion pob prifysgol yng Nghymru, a Chyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Mae aelodau Prifysgolion Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn academaidd i drafod materion yn ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru, ac i benderfynu ar safbwyntiau a gweithredoedd ar y cyd. Mae'r Pwyllgor yn penderfynu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith Prifysgolion Cymru.

Mae Cyfansoddiad Prifysgolion Cymru yn perthyn i gwmpas Erthyglau Cymdeithasiad Cymdeithas Prifysgolion y DU (UUK). Mae Cadeirydd Prifysgolion Cymru yn Is Lywydd ex officio UUK, yn Ymddiriedolydd UUK, ac yn aelod o Fwrdd UUK a'i Bwyllgor Gwaith.

Cadeirydd presennol Prifysgolion Cymru yw'r Athro Colin Riordan, Llywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd a Is-Gadeirydd presennol Prifysgolion Cymru yw Mr Rob Humphreys, Cyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Ein Aelodau



Cyflawni i Gymru:

Blaenoriaethau addysg uwch i Lywodraeth Cymru nesaf

Mae prifysgolion yng Nghymru yn asedau cenedlaethol sy'n cynnig manteision helaeth i unigolion, cymunedau, y genedl yn ei chrynswth a llywodraeth yng Nghymru:

Tanio economi Cymru

Mae'r sector addysg uwch yn un o ddiwydiannau pwysicaf Cymru, ac mae'n creu miloedd o swyddi ac yn symbylu gweithgarwch economaidd o bwys mewn cymunedau lleol, ac yn economi ehangach Cymru yn gyffredinol. Yn 2014 cynhyrchodd prifysgolion Cymru allbwn gwerth £4.6 biliwn yng Nghymru.

Tyfu sail sgiliau Cymru

Prifysgolion sy'n cynnig yr ateb gorau i Gymru ar gyfer tyfu sail sgiliau busnesau a chymunedau Cymru, trwy wella sgiliau ac ail-sgilio'r gweithlu presennol a darparu graddedigion tra medrus y mae cymaint o alw amdanynt gan gyflogwyr. Mae hyn yn ei dro yn gwneud Cymru yn gyrchfan ddeniadol i gyflogwyr sy'n ystyried adleoli neu ehangu.

Creu cyfleoedd teg

Mae prifysgolion yn gatalydd ar gyfer symudoledd cymdeithasol ac maent yn parhau i fuddsoddi'n drwm i sicrhau bod myfyrwyr, waeth beth yw eu cefndir, yn gallu derbyn addysg uwch o ansawdd da sy'n gallu newid bywydau.

Wrth inni edrych i'r dyfodol, prifysgolion, a'r gyfran gynyddol o bobl ifanc sy'n astudio ynddynt, fydd yn arwain yr ymdrech i greu economi sy'n gystadleuol yn fyd-eang yng Nghymru. Yn ei dro, bydd hyder mewn economi sy'n tyfu yn creu amgylchedd fydd yn meithrin mwy o greadigrwydd a ffyniant yng Nghymru - fydd yn sicrhau'r ansawdd bywyd yr ydym yn gobeithio amdano - **cymdeithas lle y mae gwasanaeth iechyd safon byd, dileu tlodi a dyfodol diogel ac sy'n rhoi boddhad ar gael i bawb**. Mae gan brifysgolion gryfder mawr yn eu hamrywiaeth, sy'n cynnig y gallu neu'r gallu posib i fod yn brif asiant newid yng Nghymru trwy greu economi a chymdeithas gref sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Dylid seilio penderfyniadau polisi i'r dyfodol ar dystiolaeth gadarn, dylent fod yn ariannol gynaliadwy ac mor hyblyg a chydnerth â phosib i newidiadau allanol. Mae newidiadau yn Lloegr eisoes wedi cael effaith bwysig ar addysg uwch yng Nghymru ac mae hynny'n debygol iawn o barhau wedi i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei bapur gwyrdd diweddar ar addysg uwch. Mae angen i'n prifysgolion allu defnyddio eu statws annibynnol i adeiladu cystadleurwydd rhyngwladol i Gymru. Mae Prifysgolion Cymru yn gofyn felly i bob plaid wleidyddol wneud yr isafswm ymrwymadau canlynol, wrth inni baratoi ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2016. Roedd y llywodraeth bresennol yn iawn i droi at banel annibynnol i wneud argymhellion ar gyfer llwyddiant a chynaliadwyedd hirdymor y sector. Rydym felly'n gofyn am yr ymrwymadau hyn gan bleidiau gwleidyddol wrth inni ddisgwyl argymhellion Adolygiad Diamond o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru yn yr Hydref 2016

Er mwyn parhau i gyflawni allbynnau hollbwysig sy'n allweddol i dwf economaidd a gwelliannau cymdeithasol yng Nghymru, dyma'r **chwe ymrwymiad sylfaenol** ar gyfer prifysgolion a ddylai fod yn brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru nesaf:

- 1** Darparu grantiau cynhaliaeth trwy brawf modd i fyfyrwyr o Gymru o lefel sylfaen i lefel ôl-radd i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu manteisio ar y cyfleoedd newid-bywyd y mae addysg uwch yn eu cynnig.
- 2** Blaenoriaethu gwariant addysg uwch tuag at bolisiâu sy'n cynnig cyfleoedd i fanteisio ar addysg brifysgol o ansawdd uchel ac sy'n darparu manteision economaidd a chymdeithasol i unigolion, llywodraeth a busnesau yng Nghymru.
- 3** Cynnal mewn termau go iawn y gyllideb ymchwil ansawdd-gysylltiol (QR) sy'n sail i ymchwil sy'n arwain y byd yng Nghymru, a sicrhau ei bod yn tyfu mewn termau go iawn.
- 4** Parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth ran-amser er mwyn ehangu mynediad at addysg uwch a datblygu sgiliau allweddol yn y gweithlu yng Nghymru, gan gofio fod darpariaeth ran-amser yn galw am gefnogaeth a buddsoddiad penodol er mwyn cyflawni i Gymru.
- 5** Cadw corff ariannu a goruchwyliol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru i gynnig sefydlogrwydd i'r sector, darparu sicrwydd i'r Llywodraeth a galluogi prifysgolion i barhau i gyflawni i Gymru.
- 6** Cefnogaeth weithredol o blaid yr ymgyrch y dylai Cymru barhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

1

Darparu grantiau cynhالياeth trwy brawf modd i fyfyrwyr o Gymru o lefel sylfaen i lefel ôl-radd i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu manteisio ar y cyfleoedd newid-bywyd y mae addysg uwch yn eu cynnig.

Dangosodd y dystiolaeth fod myfyrwyr yn rhoi mwy o bwys ar gymorth cynhالياeth na chymorth gyda ffioedd dysgu¹. Er mwyn ehangu mynediad at addysg uwch yng Nghymru yn yr hinsawdd economaidd bresennol maen rhaid ail-gyfeirio adnoddau tuag at grantiau cynhالياeth trwy brawf modd i fyfyrwyr o Gymru o'r lefel sylfaen i'r lefel ôl-radd. Yn ôl astudiaeth gan yr NUS-USI, mae anawsterau ariannol yn gwrthio llawer o fyfyrwyr at ddibyn gadael y cwrs. Mae pum deg wyth y cant o fyfyrwyr yn poeni'n rheolaidd am beidio cael digon o arian i dalu eu costau byw sylfaenol fel rhent neu filiau cyfleustodau.

Mae cefnogaeth i fyfyrwyr ôl-radd yn hollbwysig, yn enwedig felly o gofio cyhoeddiad Llywodraeth y DU yn Natganiad yr Hydref y bydd cefnogaeth newydd ar gael ar gyfer graddau Meistr ôl-radd i fyfyrwyr o Loegr o 2016/17. Mae cymuned ôl-radd ffyniannus yn allweddol i unigolion, prifysgolion, busnesau a llywodraeth. Mae'n rhoi lefel uwch o sgiliau a chymwyseddau i fyfyrwyr sy'n eu galluogi i gyfrannu a chystadlu ar y llwyfan byd-eang ac i brifysgolion maen denu ymchwil sy'n arwain y byd sydd ar gallu i newid bywydau. Mae busnesau angen y sgiliau lefel uchel ac arbenigol y mae ôl-raddedigion yn eu cynnig, ac mae hynny yn ei dro yn ffactor o bwys o ran denu buddsoddiadau diwydiannau rhyngwladol i'r llywodraeth.



Astudiaeth Enghreifftiol

Kayleigh Hall, myfyrwraig Iechyd & Gofal Cymdeithasol lawn amser ym Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Llandaf:

“Pan roeddwn yn yr ysgol, doeddwn i ddim yn mynd yn aml iawn, oherwydd anawsterau personol gartref, er fy mod yn mwynhau addysg yn fawr.

Gwneuthum daith breswyl Campws Cyntaf pan roeddwn yn bedair ar ddeg, pan arhoson ni yng Nghampws Cyncoed ac fe gefais flas mawr arni gan ei bod wedi agor fy llygaid i ba mor wych allai prifysgol fod. Gadewais gyda sawl TGAU ond doeddwn i ddim yn credu o hyd y byddai'n ddigon i fynd i brifysgol.

Wedi imi adael yr ysgol cefais ddau blentyn ac euthum yn ôl i'r brifysgol yn ddwy ar hugain. Gwneuthum gwrs Mynediad i gael lle yn y Brifysgol a bûm i rai o'r dyddiau agored, ond roeddwn yn rhewi bob tro. Y trobwynt imi ar gyfer dod i'r Brifysgol oedd yr ymweliad preswyl; roedd yn gymorth mawr, oherwydd bryd hynny roeddwn yn credu nad oedd ond ar gyfer pobl gefnog ac i bobl addysgedig iawn a doeddwn ddim o ddifrif yn credu y byddwn i'n cael y math yna o gyfle. Gwneuthum fy nghwrs Mynediad yn y Coleg ac roeddwn yn bendant fy mod yn mynd gan mod i eisiau bod y gyntaf yn fy nheulu i fynd i'r brifysgol a gadael gyda gradd, a dyna ddigwyddodd, fi oedd y gyntaf. Syrthiais mewn cariad ar cwrs. Roedd yn bwnc gweddol eang a chefais flas arno. Wedi imi orffen y radd hon rwy'n gobeithio mynd ymlaen at radd Meistr, Seicoleg Plant efallai.”

¹ Yn ôl gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Banel Ariannu Myfyrwyr Universities UK

2

Blaenoriaethu gwariant addysg uwch tuag at bolisiau sy'n cynnig cyfleoedd i fanteisio ar addysg brifysgol o ansawdd uchel ac sy'n darparu manteision economaidd a chymdeithasol i unigolion, llywodraeth a busnesau yng Nghymru.

O gofio'r newidiadau i gyllido prifysgolion a myfyrwyr yn Lloegr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sydd wedi effeithio ar Gymru, mae gennym erbyn hyn ddewis anodd ei wneud: darparu addysg cost isel i bawb neu fuddsoddi mewn prifysgolion Cymru o ansawdd uchel sy'n cynnig buddiannau o bob math ar draws ein cymunedau i bobl a busnesau. Nid ydym yn credu y bydd Llywodraeth Cymru y dyfodol yn gallu gwneud y ddau. Trwy roi'r gorau i gynnig grant ffioedd dysgu cyffredinol sydd ond yn cefnogi myfyrwyr isradd llawn-amser a thrwy ei dargedu'n well tuag at y sawl sydd fwyaf ei angen, gellir blaenoriaethu cyllid tuag at bolisiau addysg uwch sy'n arfogi ein prifysgolion i gynnig twf economaidd, mwy o gyfiawnder cymdeithasol, ac, yn hollbwysig, arlwy brifysgol o ansawdd uchel ar gyfer myfyrwyr yn astudio trwy'r holl foddau gwahanol yng Nghymru. Mae angen i'r pynciau cost uchel fel meddygaeth, deintyddiaeth a phynciau STEM ehangach gael eu hariannu'n iawn fel y gall Cymru gystadlu, nid yn unig yng ngwledydd Prydain, ond ar lwyfan y byd hefyd.



Astudiaeth Enghreifftiol

Jake Durham, trombonydd graddedig yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru:

“Rwyf yn un o bedwar o blant ac rwy'n dod o'r hyn y byddech maen debyg yn ei alw'n deulu dosbarth gwaith. Doedd neb yn fy nheulu wedi bod i brifysgol ac felly doedd gen i neb y gallwn siarad â nhw o ran a allai prifysgol fod yn ddewis imi hyd yn oed. O ystyried sefyllfa ac amgylchiadau fy nheulu, doeddwn i ddim yn credu y gallwn fod wedi fforddio mynd i Brifysgol. Roedd arian yn rhwystr imi ar y dechrau, yn rhannol gan nad oeddwn yn gwybod unrhyw beth am y grantiau a'r benthyciadau oedd ar gael, ond pan edrychais ar hyn yn fanylach fe sylweddolais y gallwn fforddio mynd i brifysgol i astudio ar gyfer gradd gan nad ydych yn talu eich ffioedd tan ar ôl ichi raddio. Mae pobl yn siarad am arian ac am ba mor ddrud yw mynd i brifysgol, ond rydw i'n teimlo mod i wedi cael gwerth fy arian ar fy nghwrs gradd israddedig. A minnau wedi graddio erbyn hyn, rydw i'n torri fy mol i osod sylfaen gryfach i'm gyrfa trwy fynd ymlaen i astudio ymhellach ar lefel ôl-radd. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw gefnogaeth ariannol ar gael gan y llywodraeth yng Nghymru ar gyfer astudiaethau ôl-radd trwy grantiau neu fenthyciadau, dydw i ddim hyd yn oed yn gallu meddwl am y dewis hwnnw.”

3

Cynnal mewn termau go iawn y gyllideb ymchwil ansawdd-gysylltiol (QR) sy'n sail i ymchwil sy'n arwain y byd yng Nghymru, a sicrhau ei bod yn tyfu mewn termau go iawn.

Mae gan brifysgolion Cymru y ganran uchaf o ymchwil sy'n arwain y byd o unrhyw ran o wledydd Prydain o ran ei effaith, ac mae bron ei hanner yn cael ei ystyried yn waith a gaiff effaith drawsnewidiol ar gymdeithas a'r economi. Mae buddsoddi yng nghapasiti ymchwil Cymru yn hollbwysig er mwyn inni allu sicrhau mwy o gyllid cystadleuol, fydd yn adeiladu ar ein henw da rhagorol ledled y byd ac yn ehangu'r gwaith ymchwil o ansawdd ym mhrifysgolion Cymru er lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae'n hanfodol fod Cymru'n buddsoddi i ddatblygu'r mas critigol o ymchwilwyr a chyfleusterau sydd eu hangen arni i ddenu'r doniau gorau a ffynonellau ariannu newydd. Bydd hyn yn ei dro yn creu hyder ar gyfer datblygu cydweithrediadau rhwng prifysgolion, busnesau a'r sector cyhoeddus ar draws y byd, a hynny er lles pob un ohonynt. Rhaid i gyllid QR barhau i gael ei ddisbarthu gan gorff sy'n annibynnol o'r llywodraeth, er mwyn sicrhau bod ymchwil 'wybren las' yn cael ei ariannu ar sail rhagoriaeth, sef yr allwedd i lwyddiant mewn ymchwil cymwysedig.



Astudiaeth Enghreifftiol

Lleihau nifer y bobl sy'n mynd i adrannau brys ysbytai yn ddiangen trwy wella'r gofal y tu allan i'r ysbyty:

Mae rhaglen o waith gan yr Athro Helen Snooks a'i tîm ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe wedi lleihau nifer y bobl sy'n cael eu cludo i Adrannau Brys mewn ambiwlans. Daeth adolygiad dan arweiniad Snooks i'r casgliad nad oedd angen ambiwlans ar 40% o'r galwadau i wasanaethau iechyd brys ledled y byd gan nad oeddent yn peryglu bywyd nac yn ddifrifol. Trwy gydweithio â darparwyr gwasanaethau ambiwlans, gwneuthurwyr polisi ac academyddion, daeth y tîm ymchwil o hyd i ffyrdd diogel eraill o osgoi mynd â phobl i adrannau brys, megis nyrsys yn rhoi cyngor dros y ffôn neu gyfeirio pobl at wasanaethau iechyd heb fod yn rhai brys. Yn 2012-13 cafodd dros 360,000 o alwadau brys eu datrys trwy roi cyngor ar y ffôn, gan osgoi gorfod galw am ambiwlans. Wrth i fodelau newydd o wasanaethau ambiwlans gael eu cyflwyno yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol wrth ymateb i ymchwil yr Athro Snooks, maer ganran o alwadau brys yn arwain at fynd â chleifion i'r ysbyty wedi gostwng. Syrthiodd hyn o 68% yn 2007-8 i 55% yn 2012-3, ac amcangyfrifir fod yr arbedion o beidio gorfod gwneud teithiau ambiwlans yn unig yn gyfanswm o £24 miliwn.

4

Parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth ran-amser er mwyn ehangu mynediad at addysg uwch a datblygu sgiliau allweddol yn y gweithlu yng Nghymru, gan gofio fod darpariaeth ran-amser yn galw am gefnogaeth a buddsoddiad penodol er mwyn cyflawni i Gymru.

Mae gan astudiaethau rhan-amser rôl arbennig o bwysig mewn agendau gwella sgiliau ac ail-sgilio a dylai fod ganddynt rôl ganolog mewn unrhyw strategaeth sgiliau. Mae'n cynnig ffordd bwysig i mewn i addysg uwch i fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, ac maent yn gwneud cyfraniad o bwys i'r agenda ehangu mynediad ac i ddatblygu cymunedol ac adfywio economaidd mewn cymunedau dan anfantais. Rhaid i'r llywodraeth nesaf gofio fod darpariaeth ran-amser yn arlwy wahanol a wneir i 'farchnad' myfyrwyr wahanol i gyrsiau llawn-amser, ac o'r herwydd maen galw am gefnogaeth a buddsoddiad penodol er mwyn darparu ar y lefel uchel o ansawdd y mae prifysgolion yn ei darparu



Astudiaeth Enghreifftiol

Bu James Frowen, 34 oed o Gaerdydd, yn was sifil er 1998. Yn ei rôl yn Rheolydd Trawsnewid Busnes yn Nhŷr Cwmnïau, maen gyfrifol am arwain menter i gyfuno'r ddau faes gweithredol mwyaf yn y sefydliad. Ag yntau wedi'i hyfforddi'n hwylusydd ac yn hyfforddwr cymwysedig, mae ganddo'r cyfrifoldeb ychwanegol am oruchwylio Rhwydwaith Hyfforddi. Wrth edrych ar ei ddewisiadau astudio, astudio'n rhan-amser oedd y dewis amlwg i James gan ei fod yn caniatáu iddo weithio'n llawn-amser a pharhau i ddarparu ar gyfer ei deulu. Dechreuodd astudio ym mis Tachwedd 2009, a chwblhaodd ei radd BA (Anrh) Arweinyddiaeth & Rheolaeth ym mis Ebrill 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd i reoli ei waith yn ei swydd bob dydd, ymrwymiaidau academaidd a theuluol, yn ogystal â pharhau i gyflawni ei rôl yn Ymatebydd Cynaf Cymunedol. Aeth James ymlaen i ennill Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ryngwladol Ysgol Fusnes Y Brifysgol Agored yn 2014/15.

Astudiaeth Enghreifftiol

Astudio'n rhan-amser oedd yr ateb perffaith i Ann-Louise o Elai, Caerdydd, 47 oed gan ei bod yn gweithio'n rhan-amser, yn fam sengl ac yn gofalu am aelodau eraill y teulu. Tra'n gwirfoddoli yn ysgol ei merch, astudiodd Ann-Louise ar gyfer Tystysgrif Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion Cynradd Y Brifysgol Agored er mwyn cymhwyso i ddod yn gymhorthydd dysgu. Erbyn hyn mae Ann-Louise wedi gosod ei golygon yn uwch fyth ac aeth ymlaen i astudio ar gyfer BA (Anrh) Plentynod a Datblygiad Ieuentid, gyda'r bwriad o arbenigo ar gefnogi plant ag anghenion arbennig.

5

Cadw corff ariannu a goruchwyliol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru i gynnig sefydlogrwydd i'r sector, darparu sicrwydd i'r Llywodraeth a galluogi prifysgolion i barhau i gyflawni i Gymru.

Mae corff cyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn hanfodol i ddarparu rôl gyllido a rheoleiddiol, sy'n rheoli risg ac yn cynnig sefydlogrwydd i'r sector. Mae annibyniaeth y corff cyllido yn hanfodol ar gyfer cefnogi annibyniaeth prifysgolion, sy'n rhoi i brifysgolion y rhyddid i fuddsoddi, benthyca ac ennill incwm. Mae'r gallu hwn i reoli eu materion eu hunain yn allweddol i brifysgolion Cymru gan mai enillion annibynnol yw trwch yr incwm y mae rhai prifysgolion yn ei dderbyn yn absenoldeb symiau sylweddol o fuddsoddiadau cyhoeddus. Er hynny, byddai cyfrifoldeb y llywodraeth i sicrhau bod yr ymddiriedaeth ar buddsoddiad a wnaed yn y sector gan fyfyrwyr a rhan-ddeiliaid eraill hefyd yn cael eu diogelu. Mae corff ariannu a goruchwylio annibynnol yn allweddol i gynaliadwyedd hirdymor y sector addysg uwch yng Nghymru i:

- Gynnig her a sicrwydd gwybodus ar faterion ansawdd, llywodraethiant da a risg.
- Darparu arbenigedd amhrisiadwy a datrysiadau ymarferol i'r angen i weithredu polisi'r llywodraeth er lles economi a chymdeithas Cymru.



Astudiaeth Enghreifftiol

Mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) arbenigedd sy'n caniatáu iddo fynd ati'n ddi-oed i sicrhau atebion deallus, creadigol i heriau polisi ac ariannu. Llwyddodd CCAUC i weithredu trefn ffioedd ac ariannu newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr o 2012, ac ateb wedi'i frocera i helpu cadw gwariant cyhoeddus ar gyfer myfyrwyr o dan reolaeth.

6

Cefnogaeth weithredol o blaid yr ymgyrch y dylai Cymru barhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae symudiad dilyffethair myfyrwyr a staff o fewn yr UE nid yn unig yn cyfoethogi profiad myfyrwyr, ond mae hefyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig i economi Cymru sydd werth cannoedd o filiynau o bunnoedd. Hefyd, gan fod llawer o'n partneriaid ymchwil mwyaf rheolaidd yn dod o'r UE, gallai rhoi'r gorau i'n haelodaeth niweidio ein sail ymchwil a chael effaith andwyol ar y cyfraniad y mae ein prifysgolion yn ei wneud i helpu arloesi mewn meysydd fel gofal iechyd, a'u rôl yn tanio twf economaidd a ffyniant i'r dyfodol. Mae'n hollbwysig fod Cymru'n aros yn yr UE er mwyn parhau i wireddu manteision sylweddol aelodaeth o'r UE i'n prifysgolion a chymdeithas yn gyffredinol.



Astudiaeth Enghreifftiol

Mae prosiect a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, dan arweiniad Prifysgol Bangor, wedi gwella rheolaeth pysgodfeydd cynaliadwy ac wedi lleihau troseddau bywyd gwyllt:

Mae defnyddio ymchwil ffrensig DNA Bangor wedi cael effeithiau pwysig ar reoli masnachu anghyfreithlon bywyd gwyllt. Yn dilyn gwaith cychwynnol yn darparu tystiolaeth ar gyfer erlyniadau troseddol a gafodd effeithiau ataliol ehangach ar droseddau bywyd gwyllt, aeth ymchwil dan arweiniad Bangor ymlaen i ddefnyddio'r technegau hyn i olrhain (cynhyrchion) pysgod yn ôl i'w poblogaethau ffynhonnell er mwyn gwahardd arferion pysgota anghyfreithlon, heb eu hadrodd a direolaeth. Er 2009, mae'r gwaith hwn wedi gwella gwaith rheoli stoc gan lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, cafodd effaith uniongyrchol ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac fe'u gweithredwyd gan y Cyngor Hwsmonaeth Forol yn arf dilysu ar gyfer labelu cynhyrchion yn gywir.

Cyhoeddiadau Ychwanegol

1

The Economic Impact of Higher Education in Wales:

www.uniswales.ac.uk/wp/media/The-Economic-Impact-of-Higher-Education-in-Wales.pdf

2

The Economic Impact of International Students in Wales:

www.uniswales.ac.uk/wp/media/The-Economic-Impact-of-International-Students-in-Wales.pdf



2 Pwynt Caspian, Caspian Way, Caerdydd CF10 4DQ
029 2044 8020 info@uniswales.ac.uk